# Ymweliadau Safle gwasanaethau Gofal, Cyngor Gwynedd.











CYNGOR GWYNEDD

# Croeso

**Ymweliadau safle o fewn gwasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd.**

Diolch am ddangos diddordeb i ddod am ymweliad safle yn un o wasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn darparu amryw o wasanaethau gofal i drigolion Gwynedd er mwyn gwarantu bod pobl yr ardal yn cael y gefnogaeth orau bosib yn eu cymunedau, gan warantu bod llesiant, urddas ac annibyniaeth unigolion yn cael eu parchu.

Gellir rhannu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol o fewn y Cyngor i wasanaethau-

- Oedolion, Iechyd a Llesiant,
- Anableddau Dysgu a
- Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Gellir cael manylion pellach am y Cyngor a'n gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ar ein gwefan www.gwynedd.llyw.cymru

Yn y pecyn yma byddwn yn ymhelaethu mwy ar y math o ymweliadau safle sydd ar gael i chi o fewn ein gwasanaethau.



# Ymweliadau Safle

Oes yna ddisgyblion neu fyfyrwyr acw sydd efo ***gwir*** ddiddordeb yn y maes Gofal? Oes gennych chi bobl ifanc sydd yn awyddus i wybod mwy unai cyn dewis astudio Iechyd a Gofal ymhellach neu cyn camu mewn i'r byd gwaith?

Mae rhai o wasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd yn barod i agor eu drysau i bobl ifanc sydd eisiau deall mwy am y sector. Deall mwy am y math o swyddi sydd ar gael a deall mwy am beth mae rolau neu weithio yn y maes wir yn olygu. Yn agored i unrhyw ddisgybl / myfyriwr o flwyddyn 8 i fyny, rydym yn awyddus i groesawu rheiny sydd efo gwir ddiddordeb dilyn gyrfa yn y maes.

Mae'r pecyn yma'n cynnwys yr holl wasanaethau sydd yn fodlon cynnig ymweliadau safle. Mae'r pecyn yn cynnwys mwy o fanylion am y gwasanaethau, pa ddyddiau o'r wythnos y gallent gynnig a'r niferoedd all fynychu ar y tro. Mae pob gwasanaeth yn wahanol felly darllenwch bob cynnig yn ofalus.



# Ymweliadau Safle

Gofynnwn yn garedig am oleiaf mis o rybudd cyn eich ymweliad safle. Bydd hyn yn gwarantu digon o amser i'r gwasanaethau baratoi. Cyfrifoldeb **CHI** fel Ysgol neu Goleg fydd cadw rheolaeth ar y bobl ifanc, nid cyfrifoldeb y gwasanaeth. Gofynnwn felly i chi ddod â'r niferoedd staff priodol efo chi o'ch sefydliad.

Mae croeso i chi drefnu eich ymweliad safle drwy eich Cynghorydd Cyswllt Busnes yng Ngyrfa Cymru neu'n uniongyrchol drwy ebostio'r Cyngor ar **gofalu@gwynedd.llyw.cymru** a rhoi 'Ymweliad Safle' fel pwnc i'ch e-bost.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu chi draw!



# Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau Gofal Cymdeithasol i drigolion Gwynedd sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol.

Mae’r adran yn darparu nifer fawr o wasanaethau gwahanol i gefnogi trigolion Gwynedd. Canran bach ond pwysig iawn o’r gwasanaethau a ddarperir ydi ein cartrefi preswyl, gwasanaethau dydd a gofal cartref. Amcan ein gwasanaethau mewnol yw darparu gwasanaeth o’r radd flaenaf i alluogi, cefnogi a hyrwyddo pobl i fyw bywydau bodlon ac mor annibynnol ag sy’n bosib. Bydd yr adran yn canolbwyntio ar fywyd y defnyddiwr, gan gynnig gwasanaeth hyblyg, gwbl ‘berson canolig’ ac wedi ei selio ar ansawdd ac emosiwn.



# Cartrefi Preswyl




Mae gan y Cyngor 11 o gartrefi preswyl ar draws y sir y gallwch drefnu ymweliad safle iddynt. Mae'r cartrefi wedi'u gwasgaru ar draws y sir fel â ganlyn;

- Plas Hafan, Nefyn
- Plas Y Don, Pwllheli
- Plas Gwilym, Penygroes
- Plas Maesincla, Caernarfon
- Plas Pengwaith, Llanberis
- Plas Ogwen, Bethesda
- Plas Hedd, Bangor
- Bryn Blodau, Llan Ffestiniog
- Cefn Rodyn, Dolgellau
- Llys Cadfan, Tywyn
- Hafod Mawddach, Bermo.

Allan o'r 11 cartref uchod mae un cartref, Plas Maesincla, yn gartref ar gyfer unigolion sydd angen gwasanaeth dementia dwys yn unig gyda rhannau o Lys Cadfan, Bryn Blodau, Plas Hedd a Phlas Hafan yn cynnig y gwasanaeth yma. Bydd Hafod Mawddach hefyd yn cynnig y gwasanaethau hyn yn y dyfodol agos.

# Cartrefi Preswyl




**Mae ein Cartrefi Preswyl yn fodlon croesawu unigolion ar ymweliadau safle ar brynhawniau Mercher. Bydd cynnig i 6 o ddisgyblion / fyfyrwyr ddod ar yr un pryd.**

Wrth ddod yma ar eich ymweliad safle byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Cyfle i ddatblygu sgiliau pobl a rhyngweithio wrth ddod i adnabod y defnyddwyr, cael cyfle i ddatblygu perthnasoedd a chyfle i fod yn ffrind.
- Cymryd rhan mewn gweithgaredd i ddiddanu'r defnyddwyr e.e. gêm o fingo - cyfle da i chi ddefnyddio eich sgiliau creadigol!
- Gwella dealltwriaeth o weithio mewn cartref gofal.
- Dod i adnabod rhai o staff y cartref a dod i ddeall mwy am eu llwybrau gyrfa, eu rolau a'u dyletswyddau.

# Anableddau Dysgu

Mae'r gwasanaethau Anableddau Dysgu yn disgyn o dan adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Pwrpas y gwasanaeth yw cyfarch a hyrwyddo anghenion llesiant unigolion ag anabledd dysgu. Boed hynny'n anghenion corfforol, emosiynol, meddyliol neu gymdeithasol. Bydd angen sicrhau bod y gwasanaethau yn cyfarch be sy'n bwysig i unigolion ag anabledd dysgu a'u gofalwyr.

Mae'r gwasanaethau Anabledd Dysgu yn canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal perthnasoedd. Mae ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol drwy'r hybiau lleol a chynnig gwasanaethau sydd yn cael eu harwain gan yr unigolion a'u gofalwyr.



# Hybiau Cymunedol



Mae gan y gwasanaeth Anabledd Dysgu hybiau cymunedol ar draws y sir. Hwb cymunedol yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer lleoliad ble mae unigolion gydag anableddau dysgu yn derbyn cyfleoedd dydd, cael cyfleoedd i fynychu digwyddiadau cymdeithasol a dysgu sgiliau newydd mewn ffordd sydd yn agored i'r gymuned.

Mae'r hybiau yn rhan bwysig iawn o ethos y gwasanaeth, ac yn ffordd o integreiddio gwasanaethau gyda'r gymuned ehangach gan greu cysylltiadau a pherthnasoedd gwerthfawr gyda thrigolion a sefydliadau. Dyma'r hybiau lle gallwch ddod am ymweliad safle;

- Canolfan Y Gwystl, Y Ffôr, Pwllheli
- Cynllun Cymunedol Arfon, Maesincla, Caernarfon

**Mae'r Gwystl yn fodlon croesawu unigolion ar ymweliadau safle ar ddyddiau Iau. Yn agored i grwpiau o 6 o ddisgyblion / fyfyrwyr ddod yr un pryd.**

**Mae Cynllun Cymunedol Arfon yn cynnig cyfle i ymuno efo sesiynau coginio ar foreau Iau neu sesiynau cerddoriaeth ar brynhawniau Mawrth neu Iau. Mwyafrif o 4 mewn grŵp i'r sesiynau yma.**

# Hybiau Cymunedol



Wrth ddod am ymweliad safle i un o'r hybiau yma byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Helpu efo prosiectau amrywiol.
- Defnyddio eich sgiliau celf, cerdd, coginio yn y sesiynau amrywiol
- Cael cwrdd a cynnig cefnogaeth i unigolion.
- Dod i adnabod rhai o’r staff a  dod i ddeall mwy am eu llwybrau gyrfa, eu rolau a’u dyletswyddau.
- Cael cyfle i weld y cyfleusterau sydd ar gael.

# Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion ein sir. Pwrpas yr adran yw sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a’u lles.

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a’u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a’u teuluoedd i ffynnu ac i leihau’r angen am wasanaethau mwy dwys.



# Hafan Y Sêr



Cartref Preswyl egwyl fer ydi Hafan Y Sêr sydd yn cynnig ysbaid i blant efo anableddau a'u teuluoedd. Mae'r cartref yn agored i blant o 8 i 18 oed a pan agorodd Hafan Y Sêr nôl yn 2019 dyma'r cartref cyntaf o'r fath ar draws Gwynedd a Môn.

Mae Hafan Y Sêr yn gartref pwysig iawn - mae'n rhoi cyfle i'r plant gymdeithasu gyda'i gilydd, yn rhoi cyfle iddynt gael profiadau newydd a hefyd i ddysgu sgiliau. Wrth fynd ar plant allan i'r gymuned mae'n rhoi cyfle iddynt gymysgu a magu hyder.

Lleolir Hafan Y Sêr ym Mhenrhyndeudraeth.

**Mae Hafan Y Sêr yn fodlon croesawu unigolion ar ymweliadau safle ar unai brynhawniau Llun neu drwy'r dydd ar ddydd Mawrth. Mwyafrif o 6 mewn grŵp i'r ymweliadau yma.**

Wrth ddod am ymweliad safle i Hafan Y Sêr byddwch yn cael profiadau amrywiol gan gynnwys..

- Sgwrs efo'r staff am beth ydi Hafan Y Sêr a'r math o waith maent yn wneud. Cyfle hefyd i glywed am eu llwybrau gyrfa.
- Cyfle i weld yr adnoddau sydd ar gael i'r plant.
- Cyfle i ddefnyddio rhai o'r offer.

# Sut i drefnu ymweliad?

Fel y gwelwch o'r pecyn yma mae gan y sector Gofal Cymdeithasol lawer o opsiynau gyrfaol i'w gynnig. Beth am ddod atom ni am ymweliad safle i gael blas ar y math o waith sydd ar gael ac i gael cip olwg o weithio yn y sector?

Fel nodwyd yn dechrau’r pecyn yma, gofynnwn yn garedig am oleiaf mis o rybudd cyn eich ymweliad safle. Bydd hyn yn gwarantu digon o amser i’r gwasanaethau baratoi. Cyfrifoldeb **CHI** fel Ysgol neu Goleg fydd cadw rheolaeth ar y bobl ifanc, nid cyfrifoldeb y gwasanaeth. Gofynnwn felly i chi ddod â’r niferoedd staff priodol efo chi o’ch sefydliad.

Mae croeso i chi drefnu eich ymweliad safle drwy eich Cynghorydd Cyswllt Busnes yng Ngyrfa Cymru neu’n uniongyrchol drwy ebostio’r Cyngor ar **gofalu@gwynedd.llyw.cymru** a rhoi ‘Ymweliad Safle’ fel pwnc i’ch e-bost.

Edrychwn ymlaen at gael chi draw i'n gwasanaethau. Unrhyw gwestiynau plîs e-bostiwch; gofalu@gwynedd.llyw.cymru

